

**DYLANWAD Y
SAESNEG**

CYWIR / ANGHYWIR

Oes y fath beth ag 'iaith gywir'?

Pa fath o iaith y byddwch chi'n ei defnyddio yn yr ysgol/ coleg?

araith

llythyr neu femo
swyddogol

llythyr cais

cyflwyniad

ffurfiol

cofnodion

llythyr
ymddiswyddo

datganiad i'r wasg

adroddiad
blynyddol



Neges at
gydweithwyr

llythyr
personol

rhyddiaith
gyfoes

neges destun

anffurfiol

sgript drama

blog

e-bost at
ffrind

trydar



SAESNEG YN GYMRAEG

- Er eich bod yn ysgrifennu'n llai ffurfiol i weddu sefyllfaoedd llai ffurfiol, dylid osoi bratiaith a defnydd o ymadroddion Saesnig yn eich gwaith.



**SIARAD
CYMRAEG
ÔL
DDY
WÊ**

IDIOMAU SAESNEG SY’N CYNNWYS *IN, OUT, OFF, ON, UP, DOWN...*

Mae llawer iawn o briod-ddulliau Saesneg yn defnyddio *up, down, out, in, off, on, around*, ac yn aml iawn byddwn yn trosi’r rhain yn gaeth wrth gyfieithu i’r Gymraeg, yn enwedig wrth sgwrsio.

Mae ychwanegu’r gair “up” yn beth naturiol iawn yn Saesneg e.e.

Looking up

Putting up

Bringing up

Yn anffodus, mae’n demtasiwn gwneud yr un peth ac ychwanegu “fyny” wrth drafod y pethau hyn yn Gymraeg e.e.

Edrych y gair i fyny yn y geiriadur

yn hytrach na chwilio am

Rhoi i fyny

yn hytrach nag ildio / rhoi’r gorau i

Dwyn i fyny neu dod i fyny

yn hytrach na magu neu codi’r pwynt

Annwyl Syr,

Rhai amserau, byddaf yn cael y teimlad fod dylanwad y Saesneg yn cymryd drosodd yn fy ngwaith. I fyny i nawr, dydw i ddim wedi talu sylw i'r mater, a dwi wedi bod yn gwneud lan esgusodion, ond fel canlyniad mae'r broblem wedi dod yn waeth.

Felly, mi fyddwch yn falch i glywed fy mod i wedi gwneud fy meddwl i fyny i ffeindio allan sut alla i gael gwared o'r idiomau Saesneg o'm gwaith. Y flwyddyn nesaf rwy'n gobeithio cymryd i fyny'r cyfle i gymryd rhan mewn cwrs gloywi iaith.

Rwy'n edrych ymlaen i'r diwrnod cyntaf o'r cwrs yn barod! Dwi'n gobeithio cael llawer allan o'r cwrs. Gobeithio y bydda i'n deall beth mae'r tiwtoriaid yn sôn amdan yn y gwersi!

I gyd o'r gorau,

Dean Doole

TASG - LLYTHYR DEAN DOOLE

Darllenwch lythyr Dean Doole, a thanlinellwch yr ymadroddion Seisnig.

Ceisiwch feddwl am ffyrdd mwy Cymreig o'u dweud.

Her: Ydych chi'n gallu grwpio'r gwallau hyn?



Annwyl Syr,

Rhai amserau, byddaf yn cael y teimlad fod dylanwad y Saesneg yn cymryd drosodd yn fy ngwaith. I fyny i nawr, dydw i ddim wedi talw sylw i'r mater, a dwi wedi bod yn gwneud lan esgusodion, ond fel canlyniad mae'r problem wedi dod yn waeth.

Felly, mi fyddwch yn falch i glywed fy mod i wedi gwneud fy meddwl i fyny i ffeindio allan sut alla i gael gwared o'r idiomau Saesneg o'm gwaith. Y flwyddyn nesaf rwy'n gobeithio cymryd i fyny'r cyfle i gymryd rhan mewn cwrs gloywi iaith.

Rwy'n edrych ymlaen i'r diwrnod cyntaf o'r cwrs yn barod! Dwi'n gobeithio cael llawer allan o'r cwrs. Gobeithio y bydda i'n deall beth mae'r tiwtoriaid yn sôn amdan yn y gwersi!

I gyd o'r gorau,

Dean Doole

OES MODD GRWPIO'R GWALLAU?

1. Cyfieithu idiomau'n cynnwys

up; down; out; in; off; on; around ayyb

e.e.i fyny i nawr > hyd yn hyn

cymryd i fyny'r cyfle > cymryd y cyfle; achub y cyfle ;
manteisio ar y cyfle

yn gwneud lan esgusodion > yn gwneud esgusodion

i ffeindio allan > i ddarganfod / i ddod o hyd i ...

GRWPIO GWALLAU ...

2. Defnyddio'r **arddodiaid** yn anghywir

i) *Defnyddio'r arddodiad anghywir*

e.e. yn falch i glywed > yn falch **o** glywed
cael gwared o'r idiomau > cael gwared **â**r idiomau
edrych ymlaen i > edrych ymlaen **at**

ii) *Rhoi'r arddodiad yn y lle anghywir*

e.e. gobeithio y bydda i'n gwybod beth mae'r tiwtoriaid yn sôn **amdan** >
gobeithio y bydda i'n gwybod **am** beth mae'r tiwtoriaid yn sôn
/ beth mae'r tiwtoriaid yn sôn **amdano**

GRWPIO GWALLAU ...



3. Perthynas “the of the”
neu Syndrom Pobl y Cwm!

e.e. y diwrnod cyntaf o'r cwrs > diwrnod cyntaf y cwrs

4. Defnyddio “i” gyda berfenwau

e.e. penderfynu i gael gwared > penderfynu cael gwared
bwriadu i wneud y gwaith > bwriadu gwneud y gwaith

GRWPIO GWALLAU ...

5. Defnyddio “cael” yn anghywir (cyfieithu have / got)

e.e. byddaf yn cael y teimlad (*I get the feeling*) > byddaf yn teimlo

mae'r broblem wedi dod yn waeth (*the problem has become/got worse*)
> mae'r broblem wedi mynd yn waeth / wedi gwaethygu

6. Cyfieithu idiomau cyffredinol yn llythrennol o'r Saesneg

e.e. rhai amserau > weithiau; ambell waith

yn cymryd drosodd > yn fwy amlwg

cymryd rhan > mynd ar / gwneud / mynychu

i gyd o'r gorau > cofion gorau; yr eiddoch yn gywir; yn gywir

fel canlyniad > o ganlyniad

Idiomau Saesneg sy'n cynnwys *in, out, off, on, up, down ...*

Bellach mae brawddegau anghymreig fel y rhain yn ddigon cyffredin:

Mae'n ddrwg gennym droi eich cynnig i lawr.

Mae gobaith y daw'r llyfr allan erbyn y Gwanwyn.

Dywedodd y byddai'n edrych i mewn i'r mater.

Mae'r cyfarfod wedi cael ei alw i ffwrdd tan yr wythnos nesaf.

Rydym yn bwriadu cario 'mlaen gyda'r cynllun.

Mae'n bosibl Cymrieigo'r brawddegau hyn yn gwbl naturiol e.e.

Mae'n ddrwg gennym wrthod eich cynnig.

Mae gobaith y caiff y llyfr ei gyhoeddi erbyn y Gwanwyn.

Dywedodd y byddai'n ymchwilio i'r mater.

Mae'r cyfarfod wedi ei ohirio tan yr wythnos nesaf.

Rydym yn bwriadu parhau â'r cynllun.

Quizlet!

Ysgrifennwch ar eich byrddau gwyn
bach...https://quizlet.com/_78no34

DEFNYDD ANGHYWIR O'R ARDDODIAID ...

Yn ôl gramadeg safonol Saesneg, ni chaniateir i frawddeg orffen gydag arddodiad. Mae'r rheol hon yn cael ei thorri'n gyson bellach. Yn Gymraeg, fodd bynnag, mae'n hollol dderbyniol i orffen brawddeg gydag arddodiaid, cyhyd ag y bo wedi ei redeg.

Felly gellir cyfieithu ...

The chair I was sitting on neu The chair (upon) on which I was sitting

... i'r Gymraeg: *y gadair yr oeddwn / roeddwn yn eistedd arni.*

PA ARDDODIAD?

Gallwn ddefnyddio arddodiaid ar ôl rhai berfau:

Ystyriwch y berfenwau hyn: *gwrando*

cyfrannu

dweud

Pan ychwanegwn ar, at ac wrth, rydym yn ffurfio uned neu ymadrodd arbennig.

Gwrando ar > Gwrandawaf ar y radio heno.

Cyfrannu at > Cyfrennwch at yr achos.

Dweud wrth > Dywedodd wrthi fod y llyfr yno.

SYNDROM POBL Y CWM!

Mae angen bod yn ofalus iawn wrth gyfieithu ymadroddion lle ceir “the of the” yn Saesneg. Yn Saesneg mae angen **the** ac **of the** mewn ymadroddion fel y canlynol:

the chairperson of the committee

the main point of the letter

the implications of the letter ac ati.

Yn Saesneg, maer “the” a’r “of the” yn angenrheidiol, ond yn Gymraeg, **y / yr / ’r** sydd ei angen

e.e.

cadeirydd y pwyllgor,

prif bwynt y llythyr,

goblygiadau’r llythyr ac ati.

YMARFERION RHYNGWEITHIOL ...

sgiliauiaith.colegcymraeg.ac.uk

gweithgareddau 2, 6, 8 a 10

TAFLEN WAITH YMADRODDION SAESNEG



Ysgrifennu Saesneg yn Gymraeg

Gan fod dylanwad y Saesneg mor gryf ar ein hiaith lafar ac ysgrifenedig erbyn hyn, y mae'n rhaid i'r rhan fwyaf ohonom wneud ymdrech ymwybodol i geisio osgoi siarad ac ysgrifennu Saesneg yn Gymraeg. Mae'n amlwg fod lle i briod-ddulliau benthg sydd wedi hen ymgyrtrefu yn yr iaith e.e. drws nesaf, wrth gwrs, chwythu i ffwrdd, edrych ymlaen at, bod yn werth ond ar yr un pryd, rhaid ceisio osgoi troi idiomau'n slafaid o'r Saesneg i'r Gymraeg, hyd yn oed ar lafar.

Defnyddiwch briod-ddulliau (idiomau) Cymraeg yn y brawddegau hyn:

1. Mae'r cyfarfod yn cymryd lle am hanner awr wedi tri.
2. Mae'r pwyntiau hyn i gyd yn bresennol yn yr adroddiad diweddaraf.
3. A fyddant yn wirioneddol yn gallu cyflawni hyn?
4. Roedd y cadeirydd yn gweiddi ar dop ei lais er mwyn ceisio cael trefn ar y cyfarfod.
5. Ni chaniateir cerdded cŵn ar y glaswellt.
6. Fel mater o ffaith, nid wyf yn cytuno â'r cynnig o gwbl.
7. Faint o siawns sydd i'r mater gael ei ddatrys cyn bo hir?
8. Rhaid i ni roi'r neges yma drosodd i'r etholwyr.
9. I'w syndod, nid oedd yr aelodau'n cytuno ag ef.
10. Mae siambr y cyngor yn eistedd 75.
11. Roedd y plentyn wedi ei gymryd yn sâl yn yr ysgol.
12. Ar y dechrau, roeddent am gynnal y cyfarfod nos lau ond ddoe, penderfynwyd ei gynnal nos Wener yn lle.

1. Mae'r cyfarfod yn digwydd am hanner awr wedi tri.

Cynhelir y cyfarfaod am hanner awr wedi tri.

2. Mae'r pwyntiau hyn i gyd yn yr adroddiad diweddaraf.

Caiff y pwyntiau hyn i gyd eu cynnwys yn yr adroddiad diweddaraf

Mae'r pwyntiau hyn i gyd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad diweddaraf.

3. Roedd y cadeirydd yn gweiddi nerth ei ben (nerth esgyrn ei ben) er mwyn ceisio cael trefn ar y cyfarfod.

4. Mewn gwirionedd / A dweud y gwir, nid wyf yn cytuno â'r cynnig o gwbl.

5. Pa mor debyg yw hi y bydd y mater gael ei ddatrys cyn bo hir?

6. Rhaid i ni gyfleu'r neges yma i'r etholwyr.

7. Er syndod iddo, nid oedd yr aelodau'n cytuno ag ef.

8. Mae lle i 75 eistedd yn siambr y cyngor.

Mae siambr y cyngor yn dal 75.

9. Roedd y plentyn wedi mynd yn sâl yn yr ysgol.

Cafodd y plentyn ei daro'n sâl ei daro'n wael yn yr ysgol.

10. Ar y dechrau, roeddent am gynnal y cyfarfod nos lau ond ddoe, penderfynwyd ei gynnal nos Wener yn lle hynny

Ar y dechrau roeddent am gynnal y cyfarfod nos lau ond yn hytrach na hynny, ddoe, penderfynwyd ei gynnal nos Wener.

6. Mewn gwirionedd / A dweud y gwir, nid wyf yn cytuno â'r cynnig o gwbl.

7. Pa mor debyg yw hi y bydd y mater gael ei ddatrys cyn bo hir?

8. Rhaid i ni gyfleu'r neges yma i'r etholwyr.

9. Er syndod iddo, nid oedd yr aelodau'n cytuno ag ef.

10. Mae lle i 75 eistedd yn siambr y cyngor.

Mae siambr y cyngor yn dal 75.

11. Roedd y plentyn wedi mynd yn sâl yn yr ysgol.

Cafodd y plentyn ei daro'n sâl ei daro'n wael yn yr ysgol.

12. Ar y dechrau, roeddent am gynnal y cyfarfod nos lau ond ddoe,
penderfynwyd ei gynnal nos Wener yn lle hynny

Ar y dechrau roeddent am gynnal y cyfarfod nos lau ond yn hytrach na hynny,
ddoe, penderfynwyd ei gynnal nos Wener.

TAFODIAITH

Wn i ddim fel mae sillafu hwnna.

Mae'r sefyllfa ma's o reolaeth.

Â gweud y gwir, mae e'n gywir.

Mae lot fawr o bobl yn credu hyn.

Mae'r plant yn mo'yn y llyfrau gorau.

Talfyrru: cynllunie, neud, ware, gweles i

RHAGENWAU

Anffurfiol	Cywir
Tad fi	Fy nhad i
Car fi	Fy nghar i
Plentyn fi	Fy mhlentyn
Brawd fi	Fy mrawd i
Dant fi	Fy nant i
Gardd fi	Fy ngardd
Hefyd	
Mam fi	Fy mam i
Llaw fi	Fy llaw i

EBYCHIADAU

So

Right!

Basically

O.K.

Really

Just

Codwch lan ar
eich traed.

Cofiwch
arafu'r bêl
lawr.

Peidiwch
gweiddi
allan!

Dewch lan i
ffrynt y
dosbarth.

**Sut gallwn ni
wella'r rhain?**

So, fel gest ti
hwna?

Des i lan
gyda hwn
neithiwr.

Mae angen i chi
dorri hwn
mas/allan.

Meddylwch am
un peth gallwch
chi wella ar...

Dewch lan i
ffrynt y
dosbarth.

TASG LAFAR

- Meddyliwch am y ffordd rydych chi'n siarad.
- Ydych chi'n tueddu defnyddio geiriau neu ymadroddion Saesneg?
- Sut mae newid hyn ar gyfer siarad ffurfiol?

CYWAIR NEWYDD?

Ar	R
Ara deg	ARA10
Atat; ataf; atocht	@T, @F, @CH
Ateb	@B
Becso	BXO
Cael	Cal
Dim-0	dwi 0 isio
Efallai (ella)	LLA
Eisiau	Sio
Ein dau	N2(3,4,5 ac ati)
Fi	V
Gweld ti	oo (dau lygad); GT
Gweld ti wedyn	GTD1, GTW
Helo	HLO
lawn	lwn
Nain	9
Nawr	9r
Ni'n dau	N2 (3,4,5 ac ati)
Pobol	PBL
Rhywun	RYW1
Llwyth o swsus	LL8xx
Sut mae hi?	SMAI (neu SUMAI)
Ti a fi	TaV
Ti	T
Trio	3o neu 000